OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Cynnig:
# Ymchwiliad ar ei liwt ei hun i'r Broses Adolygu Digartrefedd

## Trosolwg



Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) bwerau i ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiant mewn gwasanaeth neu gamweinyddu.

Yn dilyn ymgynghoriad i'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i weinyddu'r broses adolygu digartrefedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r Ombwdsmon bellach wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law. Roedd yna amrywiaeth o ymatebion. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu nad oedd angen adolygiad, tra roedd eraill yn pryderu nad oedd hi'n amser da i gynnal ymchwiliad o ystyried y pwysau ar awdurdodau lleol yn sgil COVID. Roedd ymatebion eraill yn croesawu'r syniad o gynnal ymchwiliad i'r maes hwn, gan nodi'r gwaith da sydd eisoes wedi cael ei wneud yn y maes ac yn cydnabod gwerth llety addas a diogel fel un o'r mesurau sy'n gallu helpu i leihau bregusrwydd yn ystod COVID-19.

Ar ôl ystyriaeth ofalus o'r sylwadau a ddaeth i law, mae'r Ombwdsmon wedi paratoi cynnig penodol ar gyfer yr ymchwiliad. Mae'r cynnig am ymchwiliad penodol a chymesur, yn ymwneud â sampl fach o awdurdodau lleol. Gwahoddir sylwadau ac ymatebion ar y cynnig penodol hwn.

## Rhagor o Wybodaeth a Dogfennau Cysylltiedig

### Sut i Ymateb

Ymatebwch i'r cynnig:

Drwy'r post at:

Y Tîm Gwelliant
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Neu dros e-bost at:

Lliwteihun@ombwdsmon.cymru

**Dyddiad ac Amser Cau: 23.59 ar 11 Rhagfyr 2020**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros e-bost neu drwy'r post at y cyfeiriad uchod.

Mae fersiwn print bras ar gael ar gais.

# Rhagair

Mae digartrefedd yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas, o'r unigolyn sydd wedi colli ei gartref i'r rhai sydd â busnesau, neu sy'n gweithio neu'n byw mewn ardaloedd lle mae digartrefedd yn amlwg. Ceir effaith ehangach hefyd ar argraffiadau pobl o ddiogelwch y cyhoedd, a dywedir bod digartrefedd yn effeithio ar dwristiaeth, gan olygu bod ein trefi a'n dinasoedd yng Nghymru yn llai deniadol i ymwelwyr.

Ond, mae'r effaith fwyaf ar y bobl sy'n wynebu digartrefedd eu hunain. Mae llawer o bobl ddigartref yn agored i niwed oherwydd eu hoed, eu hil, eu rhywioldeb neu eu trafferthion iechyd corfforol neu feddyliol. Gallai digartref waethygu'r gwendidau hyn gan y gall gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Er gwaethaf cyflwyno deddfwriaeth newydd, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 ("DTC"), Ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos fel y mae nifer yr aelwydydd a helpwyd gan Awdurdodau Lleol gyda materion digartrefedd yng Nghymru am y cyfnod 2018-19, wedi cynyddu 8% o'r flwyddyn flaenorol i dros 31,000. O'r rhain, roedd dros 2,600 o aelwydydd yn cael eu hystyried yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol; mae hynny'n gynnydd o 18% ers y flwyddyn flaenorol. Mae heriau digartrefedd cynyddol wedi'u cydnabod yn helaeth gan gyrff yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a luniodd y Grŵp Gweithredu Gweinidogion, a sefydliadau trydydd sector, llawer ohonynt wedi cynhyrchu adroddiadau ar y mater.

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol o ran atal digartrefedd yn ogystal â chefnogi pobl sydd wedi canfod eu hunain yn ddigartref. Felly, mae'n bwysig sicrhau, ar ôl penderfynu a yw rhywun naill ai ddim yn ddigartref neu nad oes ganddo hawl i gael cymorth, bod y person hwnnw hefyd yn ymwybodol o'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad asesu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau, pan gaiff penderfyniadau eu gwrthdroi adeg adolygu, bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu ar draws yr awdurdod.

Er mai blaenoriaeth gyntaf rhywun sy'n ddigartref, wrth gwrs, fydd dod o hyd i rywle i gysgu neu aros, yn hytrach na llywio drwy'r broses gwyno, efallai nad yw'n syndod a'i fod yn achosi pryder mai ychydig iawn o gwynion am ddigartrefedd sy'n cael eu derbyn gan OGCC.

Mae Deddf Ombwdsmon Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("deddf 2019") yn rhoi grym i'r Ombwdsmon ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun',[1] nad oes angen i achwynydd unigol eu cymell. Mae OGCC yn awr yn cynnig ymchwilio i weinyddiaeth DTC. Yn benodol, byddai hyn yn ystyried a yw awdurdodau lleol yn gweinyddu'r broses adolygu digartrefedd[2] yn briodol, yn deg ac yn agored, ac a ydynt yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i adolygiad o'r penderfyniad. Byddai'r ymchwiliad hefyd yn edrych ar sut y rhennir unrhyw wersi a ddysgir o'r adolygiadau ac, os yw'n briodol, wedi'u cynnwys yn y broses asesu.

[1] Adran 4 Deddf 2019

[2] Adran 85 DTC

## Yr ymchwiliad

Cynigir bod yr Ombwdsmon yn ystyried y canlynol:

- A yw Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r Canllawiau i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cyflawni'n briodol
- A yw'r rheini a allai fod â'r hawl i geisio herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd Awdurdod Lleol wedi dod i ben, yn deall ac yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am adolygiad dan adran 85 HWA
- A yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 HWA yn cael eu gweinyddu'n briodol
- Y rhesymau a roddwyd dros wrthdroi penderfyniadau ynghylch asesiadau ac, os yw'n briodol, a yw gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu gyda'r Awdurdodau Lleol hynny neu'n ehangach
- Mewn achosion lle nad yw'r penderfyniadau wedi cael eu gwrthdroi, a yw'r rheini yr effeithiwyd arnynt yn ymwybodol o'r atebion eraill sydd ar gael iddynt
- Yr amrywiaeth o gamau gweithredu a dulliau gweinyddol a gyflawnwyd gan Awdurdodau Lleol yn ystod y pandemig i asesu, adolygu a mynd i'r afael ag anghenion pobl ddigartref, neu'r rheini sy'n datgan eu bod yn ddigartref, er mwyn nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau ehangach neu dymor hwy.

## Y rheswm dros yr ymchwiliad

Mae COVID-19 wedi newid y byd.  Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi gorfod gwneud newidiadau sylweddol a dylanwadol i ddiwallu'r galwadau a roddwyd arnynt gan y pandemig hwn.  Mae hyn wedi arwain at ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, newidiadau o ran blaenoriaeth yn lleol ac yn genedlaethol, ac ymateb trawiadol i faterion byd-eang, fel digartrefedd, i sicrhau bod gan bawb ddiogelwch drws ffrynt a mynediad at gyfleusterau dŵr glân preifat.

Ond, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn sgil y pandemig yn debygol o fod dros dro.  Mae terfynau llawn y fframwaith deddfwriaethol a'i rwymedigaethau cysylltiedig yn parhau mewn grym, a bydd angen eu hailgyflwyno pan fydd yr argyfwng yn dod i ben; efallai y bydd hyn beth amser ar ôl i'r pandemig ddod o dan reolaeth.

I wneud hyn rhaid i ni ystyried yn gyntaf p'un ai, cyn neu yn ystod y pandemig, ydy awdurdodau lleol wedi gwneud digon i sicrhau bod ymgeiswyr digartref yn ymwybodol o'u hawliau i ofyn am adolygiad o benderfyniad eu hasesiad a bod yr adolygiadau hynny'n cael eu hasesu'n briodol.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cyfnod rhagarweiniol yr ymholiad yn awgrymu bod yna anghysondebau ac amrywiadau yn y prosesau hyn ar draws y wlad cyn y pandemig. Roedd y gwahaniaethau'n dibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys oed, rhywedd a lleoliad daearyddol. Byddai ymchwiliad yn gyfle i ystyried rhai o'r gwahaniaethau hynny a nodi manteision y gwahaniaethau hyn a/neu unrhyw rwystrau i wasanaeth ar gyfer y defnyddiwr gwasanaethau a'r gweinyddwr, unrhyw newidiadau i'r elfen honno o'r broses yn ystod y pandemig, a p'un ai ydy'r broses wreiddiol neu ddiwygiedig yn parhau'n berthnasol a chynaliadwy mewn byd ar ôl COVID-19.

O ran ei natur, mae'r sector cyhoeddus yn ddeinamig gyda gwleidyddiaeth, cyllid, lleoliad a newidiadau mewn demograffig yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a sut mae adnoddau'n cael eu dyrannu. Mae disgwyl i wasanaethau cyhoeddus barhau i newid a datblygu i sicrhau eu bod nhw'n effeithlon ac yn effeithiol. O ganlyniad, dylid cymryd pob cyfle i ddysgu ac i addasu. Yn y dirwedd digartrefedd, un o'r meysydd lle dylid dysgu gwersi yw'r broses asesu ac adolygu. Felly mae'n bryderus gweld nifer mor fach o geisiadau am adolygiad (o gymharu â nifer yr asesiadau a gynhaliwyd) a chanran mor uchel o'r ceisiadau hynny'n cael eu gwrthdroi bob blwyddyn. Byddai ymchwiliad yn gadael i ni archwilio'r maes hwn ymhellach, gan gynnwys sut mae gwersi'n cael eu rhannu'n lleol.

Byddai ymchwiliad yn cynnig dull holistaidd i'r broses asesu ac adolygu. Byddai'n gadael i'r rheini sy'n manteisio o'r cynlluniau a'r rhai sy'n eu gweinyddu rannu eu profiadau ac awgrymiadau, gan gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a diogelu'r broses at y dyfodol.

**Ydy'r cynnig yn diwallu'r meini prawf sydd wedi cael eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon**

Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliadau Ar Ei Liwt Ei Hun:

- **Lles y cyhoedd**

Derbynnir bod lles y cyhoedd yn "rhywbeth sydd o bwys gwirioneddol ac er budd y cyhoedd" Rydyn ni'n ystyried ei fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar y cyhoedd yn hytrach na mater sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, neu'n fater sy'n effeithio ar unigolyn (er y gall effeithio ar unigolyn yn fwy uniongyrchol na'r cyhoedd yn ehangach). Gall y cyhoedd, yn y cyd-destun hwn, gyfeirio at adran benodol o'r cyhoedd neu boblogaeth Cymru gyfan.

digartrefedd yn ymestyn y tu hwnt i’r rheini sydd i'w gweld yn cysgu allan ar y stryd, ac yn cynnwys y rheini sydd mewn llety dros dro annigonol hefyd. Yn ystod y pandemig, mae dros 800 o bobl wedi cael help gan Awdurdodau Lleol a’u hasiantaethau partner amrywiol.

O ystyried y nifer cynyddol o bobl ddigartref yng Nghymru ac effaith barhaus/ohiriedig blynyddoedd o gyni ar lawer sy’n wynebu colli eu cartrefi, byddai’n rhesymol dweud bod y pwnc hwn yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar lawer o bobl.

- **Amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig**

Mae’r dystiolaeth a ystyriwyd yn dangos bod cyfran helaeth o benderfyniadau asesu yn cael eu gwrthdroi ar adolygiad gan rai awdurdodau lleol o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn awgrymu bod yna gamweinyddu systemig o ran delio ag asesiadau a cheisiadau am adolygiad a/neu fethiant ar ran awdurdodau lleol i ddysgu o’r adolygiadau hyn.

Hefyd, mae rhywfaint o bryderon ynghylch sut mae rhai awdurdodau lleol yn mynd ati i gipio data o'r fath, sy’n awgrymu bod cyfleoedd i wella gwasanaethau yn cael eu colli.

Yn ogystal â hyn, gallai lefel isel yr adolygiadau mewn rhai awdurdodau lleol awgrymu bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r hawl, neu i ba raddau caiff yr hawl ei hyrwyddo, yn isel – sy’n awgrym o gyfathrebu gwael yn arwain at gamweinyddu systemig.

- **Mae’r mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i’r fath raddau ei bod yn ymddangos eu bod yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i’r mater sy’n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad**

Yn 2017/2018 aseswyd bod 11,000 o aelwydydd yng Nghymru yn ddigartref. Fe wnaeth llawer mwy dderbyn cymorth gyda materion digartrefedd. Mae absenoldeb cwynion i OGCC am y mater hwn yn awgrymu ei bod yn bosibl bod yr unigolion agored i niwed yr effeithir arnynt ddim yn ymwybodol, ddim yn deall, neu ddim yn gallu arfer eu hawl i uwchgyfeirio eu cwyn i OGCC. Gallai ymchwiliad ar ei liwt ei hun gan OGCC arwain at ddysgu gwersi ehangach ledled Cymru ac mae OGCC mewn sefyllfa dda i gynnal yr ymchwiliad hwn.

- **Y dystiolaeth**

Mae tystiolaeth sylweddol yn ymwneud â'r cynnig a'r materion penodol a nodir. Mae tystiolaeth o sawl ffynhonnell wedi cael eu hystyried. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Polisi, canllawiau statudol a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru
- Strategaethau, cynlluniau gweithredu a pholisïau digartrefedd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru
- Dogfennau ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan Archwilio Cymru a sefydliadau'r trydydd sector, fel Shelter Cymru a Llamau
- Gwybodaeth a gyhoeddir gan StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Adroddiadau'r Cyfryngau

- **Pa mor argyhoeddiadol yw'r dystiolaeth**

Mae'r dystiolaeth uchod, yn ein barn ni, yn gredadwy, yn ddibynadwy ac yn awgrymu bod camweinyddu systemig o ran sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweinyddu'r broses o asesu ac adolygu digartrefedd. Mae sylw helaeth wedi cael ei roi i ymdrechion diweddar Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn ymateb i'r pandemig, sy'n golygu ei bod yn berthnasol i ni ystyried sut gellid defnyddio'r camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd o arferion gweinyddol da yn ystod y pandemig i sbarduno newid neu ddysgu ehangach.

**Yng ngoleuni'r dadansoddiad hwn, rydyn ni'n ystyried bod y meini prawf hyn wedi cael eu diwallu.**

## Pa gyrff fydd yn cael eu cynnwys yn yr ymchwiliad?

Mae gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru ddyletswydd ddigartrefedd. Ond, ni fyddai'n rhesymol cynnal adolygiad o'r 22 sefydliad. O ganlyniad, mae sampl o awdurdodau lleol wedi cael ei nodi ar ôl ystyried tystiolaeth ansoddol a meintiol.

Y meini prawf ar gyfer dewis y sampl o awdurdodau lleol yw:

- Nifer yr asesiadau digartrefedd a gwblhawyd gan yr awdurdodau lleol a pha mor gyffredin ydyn nhw.
- Nifer y ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd ac a gafodd eu gwrthdroi gan yr awdurdodau lleol a pha mor gyffredin ydyn nhw.
- Yr angen i gynnwys sampl nodweddiadol, yn adlewyrchu gwahanol ardaloedd a demograffeg Cymru, gan gynnwys ardaloedd dinesig a mwy gwledig.

Mae Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 yn dangos bod cyfanswm o 31,170 o aelwydydd wedi cael eu hasesu ar gyfer cymorth digartrefedd, o'i gymharu â 28,881 yn 2017/18.

Mae'r tabl isod yn dangos y 6 Awdurdod Lleol gyda'r niferoedd uchaf a p'un ai ydy'r niferoedd hyn yn uwch neu yn is nag yn 2017/18:

| Awdurdod Lleol | Nifer yr aelwydydd a aseswyd yn 2018/19 | Nifer yr aelwydydd a aseswyd yn 2017/18 |
|---|---|---|
| Caerdydd | 5631 ↑ | 4674 |
| Abertawe | 2595 ↓ | 2643 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2181 ↑ | 1704 |
| Caerffili | 2085 ↑ | 1971 |
| Sir Gaerfyrddin | 2070 ↑ | 1746 |
| Casnewydd | 2010 ↓ | 2142 |

Ffynhonnell: StatsCymru

Er mwyn sicrhau dadansoddiad ystyrlon sy'n ystyried gwahaniaethau o ran poblogaeth, mae'n werth ystyried asesiadau am bob 1000 o drigolion. O ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18, gellir cyfrifo cyfartaledd y cymorth digartrefedd yng Nghymru i 9.25 aelwyd am bob 1000 o drigolion. Mae data rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd gan Shelter Cymru ac sydd wedi'i gynnwys yn eu hadroddiad 'Implementing the Housing (Wales) Act 2014: the role of homelessness reviews and litigation' yn dangos bod nifer yr asesiadau digartrefedd a gafodd eu cwblhau (gan yr awdurdodau lleol hynny a atebodd[3]) yn 2017/18 (28,897) yn cyd-fynd ag ystadegau Llywodraeth Cymru o (28,881). Gan ddefnyddio hwn a data poblogaeth, mae'r tabl isod yn dangos nifer yr asesiadau am bob 1000 o drigolion ar gyfer y 6 awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o asesiadau

| Awdurdod Lleol | Nifer yr asesiadau | Am bob 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Caerdydd | 4679 | 12.90 |
| Abertawe | 2643 | 10.77 |
| Casnewydd | 2147 | 14.17 |
| Caerffili | 1971 | 10.90 |
| Rhondda Cynon Taf | 1869 | 7.82 |
| Sir Gaerfyrddin | 1746 | 9.36 |

Ffynhonnell: Shelter Cymru

Mae'r data a dderbyniwyd gan Shelter Cymru hefyd yn dangos bod 406 o geisiadau am adolygiad wedi cael eu gwneud yng Nghymru yn 2017/18 gan bobl oedd yn anghytuno â'r asesiad. Ar gyfartaledd, mae hyn yn golygu bod 1.4% o asesiadau yng Nghymru yn arwain at gais am adolygiad. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd gan y 6 awdurdod lleol gyda'r niferoedd uchaf:

| Awdurdod Lleol | Nifer y ceisiadau am adolygiad | % yr asesiadau yn arwain at adolygiad |
|---|---|---|
| Caerdydd | 185 | 4 |
| Wrecsam | 50 | 4.2 |
| Sir y Fflint | 49 | 3.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 26 | 2.1 |
| Casnewydd | 16 | 0.7 |
| Gwynedd | 13 | 2.3 |

Mae'r data a dderbyniwyd gan Shelter Cymru yn dangos bod 155 o benderfyniadau ynghylch asesiadau (allan o 406 o geisiadau am adolygiad) wedi cael eu gwrthdroi o gael eu hadolygu gan yr awdurdodau lleol wnaeth ymateb. [3] Ar gyfartaledd, mae hyn yn golygu bod 38% o benderfyniadau ynghylch asesiadau yng Nghymru sydd yn cael eu hadolygu yn cael eu gwrthdroi. Mae'r gyfradd wrthdroi uchel hon yn codi pryderon ynglŷn â effeithiolrwydd a phriodolrwydd penderfyniadau ynghylch asesiadau. Mae'r tabl isod yn dangos y 6 awdurdod lleol gyda'r niferoedd uchaf o geisiadau am adolygiad a pha mor gyffredin yw penderfyniadau'n cael eu gwrthdroi ym mhob un:

| Awdurdod Lleol | Adolygiadau (Nifer) | % wedi'i gwrthdroi |
|---|---|---|
| Caerdydd | 93 | 50 |
| Sir y Fflint | 18 | 36.73 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9 | 34.62 |
| Wrecsam | 7 | 14 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 75 |
| Gwynedd | 6 | 46.15 |

I gael golwg gynrychiadol a dealltwriaeth o'r arferion sy'n cael eu dilyn gan awdurdodau lleol yng Nghymru, dylai'r sampl o awdurdodau lleol gynrychioli gogledd, de a gorllewin Cymru. Dylai hefyd ystyried yr arferion sy'n cael eu dilyn gan awdurdodau lleol gyda demograffeg wahanol - dinas, tref a chymuned wledig. Un o amcanion yr ymchwiliad yw nodi arferion da. Felly penderfynwyd y dylai'r ymchwiliad gynnwys awdurdod lleol gyda llai o benderfyniadau ynghylch asesiadau'n cael eu gwrthdroi yn dilyn adolygiad, gyda'r bwriad o ddarganfod p'un ai yw hyn oherwydd arferion da ac os felly sut y gellir eu rhannu.

Ystyriwyd hefyd pa mor gyffredin yw cysgu allan yng Nghymru a'r awdurdodau lleol gyda'r niferoedd uchaf o'r rhain yw Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe.[4]

[3] Ni wnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Rhondda Cynon Taf na Chyngor Sir Ynys Môn ddarparu unrhyw fanylion.

[4] Ministerial Action Group Report; Preventing Rough Sleeping in Wales and reducing it in the short term (Hydref 2019)

Yn ogystal, fe ystyriwyd ffactorau fel pa mor gyffredin yw'r Gymraeg a materion economaidd-gymdeithasol ym mhob awdurdod lleol. Hefyd, fe ystyriwyd gwybodaeth ansoddol ar ffurf adroddiadau'r cyfryngau a phrofiadau personol gan gynnwys y rheini oedd yn cyfeirio at effaith COVID-19 ar yr amgylchedd digartrefedd.

O ganlyniad, y tri awdurdod lleol y bwriadaf eu cynnwys yn yr ymchwiliad hwn yw:

- **Cyngor Caerdydd**

Caerdydd yw dinas fwyaf Cymru, ac mae wedi'i nodi mai'r Cyngor hwn a fu'n delio â'r nifer uchaf o asesiadau yn gyson o 2017 i 2019. Yn 2017/2018 Cyngor Caerdydd wnaeth dderbyn yn nifer uchaf o geisiadau am adolygiadau, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru.

Er bod disgwyl i'r awdurdod gyda'r nifer uchaf o asesiadau fod â'r nifer uchaf o geisiadau am adolygiadau, mae'n bryderus bod 50% o'r asesiadau a gafodd eu hadolygu wedi cael eu gwrthdroi yn 2017/18. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth yn awgrymu bod canran debyg o geisiadau am adolygiad wedi arwain at benderfyniadau'n cael eu gwrthdroi bob blwyddyn ers i'r HWA gael eu cyflwyno.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi nad yw niferoedd uchel o geisiadau am adolygiad yn dangos camweinyddu neu fethiannau ynddynt eu hunain. Fe allen nhw fod yn dystiolaeth o gyfathrebu da ynghylch hawliau adolygu neu argaeledd gwasanaethau eirioli, sy'n galluogi pobl i herio penderfyniadau yng Nghaerdydd. Ond, fe allai hefyd ddangos anfodlonrwydd â'r penderfyniad ynghylch asesiad a'r broses a gafodd ei dilyn. Ymhellach, mae'n nodweddiadol bod cyfran yr adolygiadau sy'n gwrthdroi penderfyniadau ynghylch asesiadau wedi parhau'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi pryderon nad yw'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r achosion hyn yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth. Bydd archwiliad pellach yn ein helpu i ddeall y rhesymau ac i benderfynu p'un ai ydy'r hyn sy'n cael ei ddysgu o benderfyniadau sy'n cael eu gwrthdroi yn cael i gyfathrebu'n effeithiol o fewn yr awdurdod.

Mae gan Gaerdydd hefyd y nifer uchaf o bobl yn cysgu allan. Mae Caerdydd yn ardal ddinesig yn ne Cymru lle mae ychydig llai na chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg (23%). Mae ymateb cyflym Caerdydd yn ystod y pandemig COVID-19 o ran trefnu cymorth a llety dros dro i leihau nifer y bobl oedd yn cysgu allan wedi cael ei nodi'n eang. Mae angen ystyried y cam gweithredu cadarnhaol hwn er mwyn gweld a oes cyfleoedd ar gyfer dysgu ymhellach o'r system.

Yng ngoleuni'r wybodaeth hon a'r meini prawf cyhoeddedig, argymhellir mai Caerdydd fydd un o'r awdurdodau lleol a gaiff eu cynnwys yn yr ymchwiliad.

- **Cyngor Sir Wrecsam**

Nid yw ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi mai Wrecsam yw un o'r awdurdodau lleol gyda'r nifer uchel o asesiadau digartrefedd ac mae'n ymddangos bod y nifer wedi gostwng rhwng 2017/18 a 2018/19. Roedd hefyd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer asesiadau digartrefedd gyda 8.81 am bob 1000 o drigolion yn 2017/18. Ond mae nifer y ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd y flwyddyn honno yn gosod Wrecsam ar frig yr awdurdod lleol yng Nghymru gyda dros 3 gwaith cyfartaledd Cymru. Mae'r gyfradd wrthdroi o 14% yn llawer is na chyfartaledd Cymru ac mae hyn yn gwarantu ystyriaeth bellach o'r strwythur, y broses, yr arferion a'r dulliau a fabwysiadwyd gan yr awdurdod hwn er mwyn deall y rhesymau dros hyn.

Er ei bod yn bosib bod yna resymau andwyol dros y nifer isel o benderfyniadau sy'n cael eu gwrthdroi, mae hi'r un mor bosib y bydd archwiliad fel hyn yn gyfle i roi enghreifftiau o arferion da sy'n gysylltiedig â'r broses asesu ac adolygu a gyda gweithredu'r ddeddfwriaeth/canllawiau'n ehangach a allai fanteisio awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Ond, mae Wrecsam wedi cael ei nodi fel un o'r awdurdodau lleol sydd â'r nifer uchaf o bobl yn cysgu allan yng Nghymru - y nifer uchaf yn y gogledd. Mae'n dref fawr lle mae ychydig dros chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg (28%).

Am y rhesymau hyn, ac o ystyried y meini prawf cyhoeddedig, argymhellir mai Wrecsam fydd un o'r awdurdodau lleol a gaiff eu cynnwys yn yr ymchwiliad.

- **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Er na wnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin ddarparu gwybodaeth am adolygiadau, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn nodi bod y cyngor yn delio â nifer uchel o asesiadau a bod y rhain wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2017/18 a 2018/19 (cynnydd o bron i 19%). Mae'r diffyg gwybodaeth o ran nifer yr adolygiadau, ynghyd a'u canlyniadau, yn bryderus ynddo'i hun ac mae'n codi cwestiynau ynglŷn â chofnodi data effeithiol. Mae hefyd yn awgrymu bod yna broblemau o ran cyfathrebu, mynediad at y broses statudol a gweinyddu'r broses.

Mae Sir Gaerfyrddin yn sir weddol wledig yng ngorllewin Cymru. Mae dros hanner ei phoblogaeth yn siarad Cymraeg (59%). Mae natur a rhychwant y cymorth sydd wedi cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn sgil y pandemig COVID-19 wedi cael ei nodi yn y cyfryngau, gan ddangos ei fod

wedi cynorthwyo dros 280 o bobl ddigartref. Unwaith eto, bydd ystyried camau gweithredu cadarnhaol fel hyn yn helpu i weld a oes cyfleoedd ar gyfer dysgu ymhellach o'r system.

Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod a'r meini prawf cyhoeddedig, argymhellir mai Sir Gaerfyrddin fydd un o'r awdurdodau lleol a gaiff eu cynnwys yn yr ymchwiliad.

## Y broses ymchwilio

Amlinelliad o'r broses gyffredinol fydd yn cael ei chynnal yn ystod yr ymchwiliad hwn:

a) Dechrau canfod ffeithiau ar gyfer yr ymchwiliad – ceisio gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a phrofiadau drwy:

- Casglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid, a chyrff eraill, a gan yr awdurdodau lleol dan sylw i gael y dystiolaeth/wybodaeth berthnasol o ran polisi, dogfennau, ystadegau a thystion.
- Polisïau Llywodraeth Cymru / Deddfwriaeth
- Y cyfryngau
- Ceisiadau am dystiolaeth
- Cyfweliadau gyda thrydydd partïon a defnyddwyr gwasanaethau

b) Dadansoddi ac adolygu'r wybodaeth a gesglir.

c) Adroddiad drafft a cheisio sylwadau a chytundeb i unrhyw argymhellion gan bartïon perthnasol.

d) Cyhoeddi'r adroddiad

SYLWER: Mae casglu gwybodaeth a chanfod ffeithiau yn debygol o gael eu heffeithio gan COVID-19, ond byddwn ni'n hyblyg o ran sut rydyn ni'n gweithio. Byddwn ni'n casglu tystiolaeth ysgrifenedig, sain, a fideo ac yn defnyddio fideogynadledda.

## Amserlen arfaethedig yr ymchwiliad

Rydyn ni'n cynnig bod yr ymchwiliad yn cychwyn ym mis Ionawr 2021, ac y dylai gael ei gwblhau o fewn 36 wythnos i ddyddiad cychwyn yr ymchwiliad.